



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

ADRODDIAD SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2024/2025

This report is also available in English.

Y Safonau a Chanolfan Mileniwm Cymru: Gosod y cyd-destun

Cyflwynwyd Safonau'r Gymraeg er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi hawl i unigolion yng Nghymru dderbyn gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers mis Ionawr 2017, mae Safonau'r Gymraeg wedi bod yn berthnasol i ni. Rydym bob amser wedi cymryd ein cyfrifoldeb tuag at gyflawni gwasanaethau dwyieithog o ddifri; mae'n dod yn naturiol i ni. Mae darparu gwasanaethau yn Gymraeg i'n cwsmeriaid wedi bod yn hollbwysig i'r ffordd rydym yn gweithio ers y dechrau'n deg, ac rydym yn ymrwymo i gwrdd a gofynion y safonau. Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn glir; byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni ac yn gwneud yn siŵr nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Rydym yn falch o ddefnyddio'r Gymraeg.

Wrth ymweld â ni, gall ein cwsmeriaid ddisgwyl cael eu croesawu yn Gymraeg, a phan fyddwn yn ymgysylltu â'n cwsmeriaid, byddwn:

- yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- yn parchu ac yn cofio eu dewisiadau iaith
- yn hyrwyddo ein sioeau a'n digwyddiadau yn ddwyieithog

Y Safonau

Mae ein Hysbysiad Cydymffurfio yn gofyn i ni gydymffurfio â chyfanswm o 146 o safonau, sy'n ymdrin â'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, ein perthynas gyda'n staff a sut rydym yn ystyried yr iaith yn ein penderfyniadau polisi. Ceir rhagor o wybodaeth am y safonau hyn [yma](#).

Dan y chwyddwydr: Ein perthynas gyda chi

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn egluro pa wasanaethau y mae angen i ni eu darparu'n ddwyieithog i chi – ein cynulleidfaoedd a'n hymwelwyr. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes yma ac, wrth wneud hynny, rydym yn darparu croeso Cymreig sy'n naturiol gynnes a phrofiad o'r radd flaenaf i'r rheini sy'n dewis cysylltu â ni neu ymweld â ni.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Mewn niferoedd:

Ar hyn o bryd, mae **6,264** o'n cwsmeriaid wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith, tra bod **4,474** o bobl wedi nodi bod yn well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn ddwyieithog.

Yn ystod y flwyddyn:

- Roedd Llais, ein gŵyl gelfyddydau ryngwladol ym mis Hydref, yn cynnwys perfformiadau dwyieithog a Chymraeg fel Georgia Ruth, Llŵch a Llechi: Gwen Siôn gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, a Chôr y Penrhyn, Lleuwen: Tafod Arian a Rogue Jones. Perfformiodd artistiaid Cymraeg yn seremoni'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig hefyd, ac roedd y digwyddiadau Operâu Celf Stryd yn cynnwys testun yn Gymraeg, Saesneg ac Wrddw.
- Mae'r rhaglen yn ein lleoliad Cabaret yn cynnwys sioeau Cymraeg a dwyieithog yn aml, fel Shinani'n Siarad, Dragwyl, Cwm Rag a Cabaret Gŵyl Dewi.
- Yn Bocs, ein lleoliad ar gyfer profiadau ymdrochol, fe ddangoson ni Carchardai, gosodwaith realiti rhithwir a oedd yn archwilio'r synau a recordiwyd yng Ngharchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ymchwilio i berthynas y Gymraeg â throsedd a chosb mewn ffordd sonig.
- Darlledodd Radio Platfform, ein gorsaf radio dan arweiniad pobl ifanc a rhaglen hyfforddi, 52 o raglenni radio yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn a gwnaethon nhw ddathlu Dydd Miwsig Cymru.
- Mae ein partneriaethau ysgolion gwerthfawr yn cynnwys Ysgol Garth Olwg, lle dwywaith y flwyddyn rydyn ni'n cynnal tair sesiwn undydd gyda grŵp o ysgolion i esbonio gwaith Canolfan Mileniwm Cymru. Hefyd, bob blwyddyn rydyn ni'n cynnal cynrychiadau ysgol yn ein Stiwdio Weston. Perfformiodd Ysgol Hamadryad The Wizard of Oz fel rhan o'r fenter yma.
- Gwnaethom gymryd than mewn prosiect Hybu Gwasanaethau Cymraeg gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Gwnaethom ddewis hyrwyddo ymweliadau â thudalennau Cymraeg ein gwefan a defnydd o'n sgwrsfot Cymraeg.
- Cafodd ein sgwrsfot dwyieithog ei ychwanegu at adran arferion gorau Comisiynydd y Gymraeg.
- Rydyn ni wedi dechrau defnyddio QR Cymraeg, sy'n caniatáu i ni ddefnyddio un cod QR yn unig i ddarparu dolenni Cymraeg a Saesneg i'n tudalennau gwe.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Meysydd i'w gwella:

Ein nod yw darparu gwasanaeth ardderchog yn barhaus; fodd bynnag, rydym yn deall bod pethau'n medru mynd o'i le weithiau. Rydyn ni'n edrych yn gyson am ffyrdd o wella ein gwasanaethau.

Eleni rydyn ni wedi datblygu dangosfwrdd cwynion newydd sy'n caniatáu i ni olrhain cwynion yn ôl categori. Yn ogystal â chwynion ffurfiol, mae'r dangosfwrdd yma hefyd yn olrhain adborth a gawn gan gwsmeriaid am ein darpariaeth Cymraeg; caiff y rhain eu cofnodi fel digwyddiadau yn y system. Mae hyn yn ein galluogi ni i fonitro unrhyw adborth nad yw o reidrwydd yn troi i mewn i gwyn ffurfiol.

Eleni fe gawsom dri cwyn/darn o adborth am y Gymraeg:

- Ym mis Mai, cawsom gwyn am erthygl uniaith Saesneg, darn o lyfr cyhoeddedig, a oedd wedi'i chynnwys yn rhaglen Nye, ein cydgynhyrchiad gyda'r National Theatre. Gwnaethom ni adolygu ein prosesau cyfieithu cynnwys rhaglenni ar gyfer ein cynyrchiadau ein hunain, ac yn dilyn awgrym yr achwynydd byddwn ni hefyd yn ystyried cynnwys nodyn eglurhaol os na allwn gynnwys fersiwn Gymraeg o ddarn benodol am unrhyw reswm.
- Cawsom gwyn hefyd am aelodau staff cyfrwng Cymraeg yn ein barcaffi Ffwrnais. Gwnaethom adolygu ein prosesau, gan sicrhau ein bod ni bob amser yn darparu gwasanaeth dwyieithog wrth ein desg wybodaeth, yn unol â'r safonau, ac atgoffa staff bwyd a diod i gyfarch cwsmeriaid yn ddwyieithog bob tro.
- Fe gawsom hefyd neges ar Facebook yn gofyn pam ein bod ni'n defnyddio Saesneg yn gyntaf ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom adolygu ein harferion cyfryngau cymdeithasol ac egluro ein bod ni'n dechrau ein postiadau gyda phennawd dwyieithog i ddangos eu bod nhw'n ddwyieithog, ac ein bod ni yn amrywio trefn iaith y postiadau ar sail achos wrth achos.

Dan y chwyddwydr: Ein perthynas gyda'n tîm

Mae'r Safonau Gweithredu yn amlinellu pa wasanaethau y dylem fod yn eu darparu'n ddwyieithog i'n staff. Credwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'r holl safonau yn y maes hwn, ac wrth wneud hynny rydym yn medru ymateb i anghenion iaith ein staff gan eu cefnogi i barhau i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog i'n cynulleidfaoedd yr un pryd.



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Yn ystod y flwyddyn:

- Rydyn ni wedi partneru â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu cwrs Lefel Mynediad, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2024. Mae saith aelod o staff yn cwblhau'r cwrs, gyda chwech yn sefyll eu harholiadau Mynediad ym mis Mehefin 2025. Rydyn ni bellach yn cynllunio'r rownd nesaf o gyrsiau, a byddwn ni'n cynnig cwrs Mynediad arall i ddechreuwyr a chwrs Sylfaen i bobl sydd â rhywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Rydyn ni hefyd bellach yn cynnig y cyrsiau i staff ysbeidiol a gwirfoddolwyr.
- Mae cyrsiau Cymraeg Gwaith ar-lein ar gael i staff hefyd.
- Ymddangosodd pedwar o'n dysgwyr Cymraeg mewn fideo ar gyfer Dysgu Cymraeg am fuddion ein gwersi.
- Enillon ni wob'r 'Gweithle'r Flwyddyn' yn seremoni wob'rwy Dysgu Cymraeg ym mis Gorffennaf, a chafodd un aelod o staff ei enwebu am wob'r Dysgwr y Flwyddyn.
- Cynhaliwyd sesiynau 'Clonc' anffurfiol – clwb sgwrsio wythnosol lle y gall dysgwyr Cymraeg ymarfer gyda dysgwyr eraill a siaradwyr rhugl.

Dan y chwyddwydr: Ein polisïau

Mae gennym gyfanswm o saith safon o fewn y dosbarth yma a chredwn ein bod yn cydymffurfio'n llwyddiannus â'u holl ofynion. Mae pob polisi Adnoddau Dynol ar gael yn ddwyieithog, ac yn ystod y cyfnod adrodd fe luniwyd sawl polisi newydd a gyda phob polisi aseswyd yr effaith gallai'r polisi ei chael ar y Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg

Rydym yn cofnodi'r nifer o weithwyr sydd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rydyn ni'n gofyn i staff hunanasesu eu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad yn Gymraeg, a lefel eu sgiliau Cymraeg cyffredinol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd nifer yr aelodau o staff a oedd wedi hunanasesu bod ganddynt sgiliau Cymraeg sylfaenol, sgysiol neu rugl fel a ganlyn:

Cyfanswm nifer y staff parhaol a chyfnod penodol = **114**

Cyfanswm nifer y staff parhaol a chyfnod penodol â sgiliau Cymraeg = **81**
(61% o staff)

Cyfanswm nifer y staff dros dro = **179**



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cyfanswm nifer y staff dros dro â sgiliau Cymraeg = **103 (58% o staff dros dro)**

Gallwn briodoli'r cynnydd yma o'r llynedd i gofnodion mwy cywir, dysgwyr newydd a mwy o staff newydd yn ymuno sy'n siarad Cymraeg, sydd wedi nodi bod ganddyn nhw o leiaf ddealltwriaeth sylfaenol o'r iaith.

Recriwtio

Mae pob un swydd rydym yn ei hysbysebu yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Yn y swyddi hynny lle mae gwaith yn cael ei gynhyrchu yn y Gymraeg, mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol. Ar gyfer 2024/25 gwnaethom ni gofnodi'r wybodaeth ganlynol am y swyddi a hysbysebwyd:

Crynodeb o'r swyddi gwag a recriwtiwyd yn ystod 2024/25	Nifer	Sgiliau Cymraeg yn hanfodol	Sgiliau Cymraeg yn ddymunol
Rolau dros dro	74	0	74
Contractau parhaol/cyfnod penodol	59	2	57
Cyfanswm	133	2	131

*Noder mai dyma nifer y rolau a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod, sy'n golygu bod sawl swydd yn gysylltiedig ag un rôl, er enghraifft barmyn.

Hyfforddiant

Rydym yn cynnig hyfforddiant i'n staff ar draws ystod o feysydd mewn perthynas â'r cyrsiau penodol sydd wedi'u rhestru o fewn ein safonau. Ym mis Ebrill gwnaethom drefnu i Ateb ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i atgoffa staff o'r safonau a'u pwysigrwydd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ymsefydlu i **29** o aelodau newydd o staff, sy'n cynnwys cyflwyniad ar Safonau'r Gymraeg. Ni wnaed unrhyw geisiadau ffurfiol am hyfforddiant yn Gymraeg ar y cyrsiau sy'n berthnasol i'r safonau.

*Noder o'r 59 o swyddi gwag parhaol/cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn, ni chafodd rhai eu llenwi, roedd rhai aelodau o staff wedi gadael cyn y sesiwn ymsefydlu a chafodd rhai o'r swyddi eu llenwi'n fewnol.

Am ragor o wybodaeth

Mae rhestr lawn o'r holl safonau sy'n berthnasol i ni ar gael ar ein [gwefan](#).



CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Cysylltwch â ni os hoffech ragor o wybodaeth.

wmc.org.uk | adborth@wmc.org.uk

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg.